21 Gorffennaf 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd prosiect tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru gan Nick Selwyn a Huw Rees - y tîm oedd Martin Gibson, Steve Blundell, Brian Jones, Melanie Watson, Osian Lloyd a Ginette Beal dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 6 |
| | Amrywiol yw ansawdd trefniadau sicrwydd corfforaethol cynghorau Cymru ar gyfer goruchwylio diogelu plant | 6 |
| | Argymhellion | 10 |
| 1 | Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru, sydd yn gosod y trefniadau diogelu y mae'n disgwyl i gynghorau eu sefydlu, yn ddigon clir ac y mae cydymffurfiaeth â chanllawiau gan gynghorau yn amrywio | 12 |
| | Mae rhai cynghorau yn aneglur ynghylch eu cyfrifoldebau diogelu corfforaethol | 13 |
| | Nid pob cyngor sydd wedi sefydlu unigolyn mewn swydd uwch ar gyfer diogelu gyda chyfrifoldebau corfforaethol dros hybu gwelliannau | 16 |
| | Nid yw rôl yr aelod arweiniol dros ddiogelu wedi ei ddatblygu'n ddigonol nac yn cael ei ddeall yn dda | 19 |
| | Mae byrddau lleol diogelu plant yn rhoi peth cyfeiriad strategol ac y mae datblygiad gweithio rhanbarthol ar y cyd yn cefnogi cynllunio rhyngasiantaethol effeithiol, ond dylai polisïau a gweithdrefnau diogelu asio'n well gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru a rhaid iddynt ymdrin â holl wasanaethau perthnasol y cyngor | 21 |
| 2 | Nid yw trefniadau ar draws cynghorau ar gyfer recriwtio a hyfforddi diogel yn wastad yn rhoi sicrwydd fod cyfrifoldebau diogelu corfforaethol yn cael eu gweithredu'n effeithiol | 24 |
| | Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi sefydlu systemau ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel, ond nid yw'r trefniadau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob gwasanaeth perthnasol | 25 |
| | Nid yw hyfforddiant ar ddiogelu i aelodau etholedig a gweithwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, neu'n dod i gysylltiad â hwy, wedi gwreiddio'n gyson ym mhob cyngor | 27 |

3 Nid yw trefniadau diogelu yn cael eu monitro na'u gwerthuso'n gyson gan gynghorau fel rhan o'u trefniadau craffu, archwilio mewnol a rheoli risg corfforaethol 31

Mae cyfyngiadau o ran monitro a gwerthuso diogelu corfforaethol yn gwanhau rôl craffu i herio perfformiad a dal llunwyr penderfyniadau i gyfrif 32

Cyfyngedig yw rôl archwilio mewnol o ran rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol 35

Nid yw prosesau rheoli risg cynghorau yn wastad yn ddigon cadarn i roi sicrwydd fod cyfrifoldebau diogelu corfforaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol 35

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 38

Atodiad 2 – Rhestr wirio - nodweddion allweddol trefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu 39

Crynodeb o'r adroddiad

# Amrywiol yw ansawdd trefniadau sicrwydd corfforaethol cynghorau Cymru ar gyfer goruchwylio diogelu plant



1 Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei ddiogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, cam-fanteisio a thrais, ac y mae gan gynghorau ddyletswydd statudol i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc. Dan **Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd Dan Ddeddf Plant**[1] (Gweithio Gyda'n Gilydd), mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fod â threfniadau diogelu ar gael ar gyfer plant, sydd yn cynnwys cynllunio strategol, cyflwyno gwasanaethau yn uniongyrchol, a darparu cefnogaeth a chanllawiau i'r sawl sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynwyd. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau diogelwch a lles plant yn eu hardal, gan gynnwys cymryd rhan yn eu bwrdd lleol diogelu plant.

2 Ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, bu staff Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio i weld i ba raddau y mae gan gynghorau brosesau rheoli a sicrhau ar gyfer diogelu plant, ac a ydynt yn eu gweithredu. Gosodir ein dulliau allan yn Atodiad 1. I grynhoi, fe wnaethom waith maes yn y 22 cyngor Cymreig; gwnaethom arolwg o staff ac aelodau etholedig awdurdodau lleol[2]; a buom yn adolygu ymchwil a chanllawiau perthnasol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn.

3 Yr oedd ein hadolygiad yn ystyried yn benodol effeithiolrwydd trefniadau diogelu mewn dau wasanaeth a ddewiswyd, fel dull o roi prawf ar y trefniadau sicrwydd corfforaethol o fewn cynghorau yn eu cyfanrwydd. Dyma'r gwasanaethau a ddewiswyd gennym:

a Gwasanaethau addysg – Mae gan bob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol, ysgolion nas cynhelir a sefydliadau addysg bellach ddyletswydd statudol i weithredu eu swyddogaethau gyda golwg ar ddiogelu a hybu lles eu disgyblion.

b Gwasanaethau diwylliannol a hamdden – Mae awdurdod lleol yn darparu ac yn galluogi amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau i blant megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden a pharciau. Mae gan eu gweithwyr, gwirfoddolwyr a chontractwyr wahanol lefelau a mathau o gyswllt â'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

4 Mae ein canfyddiadau a'n hargymhellion ym mharagraff 12.

1 **Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004**, Llywodraeth Cymru, Medi 2006
2 Fe wnaethom gynnal arolwg o staff awdurdodau lleol oedd yn gweithio mewn gwasanaethau hamdden a diwylliant a llyfrgelloedd, a staff addysg mewn ysgolion a rhai nad oeddynt yn gweithio mewn ysgolion; prifathrawon; cadeiryddion llywodraethwyr; a phob aelod etholedig. Derbyniasom gyfanswm o 1,990 ymateb: 185 gan gadeiryddion llywodraethwyr, 331 gan aelodau etholedig a 1,474 gan staff cyngor.

## Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru, sydd yn gosod y trefniadau diogelu y mae'n disgwyl i gynghorau eu sefydlu, yn ddigon clir ac y mae cydymffurfio â chanllawiau gan gynghorau yn amrywio

5 Mae polisi Llywodraeth Cymru Gweithio Gyda'n Gilydd yn gosod disgwyliadau clir o ran arweiniad corfforaethol, uwch-swyddogion ac aelodau ar faterion diogelu, gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau. Fodd bynnag, cawsom nad oes gan bob cyngor gyfarwyddwyr arweiniol ar gyfer diogelu a bod rôl yr aelod arweiniol mewn perthynas â diogelu heb gael ei ddatblygu'n ddigonol a heb gael ei ddeall yn dda mewn llawer o gynghorau.

6 Er bod cynghorau yn gyffredinol yn deall yn glir y dylent enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am ddiogelu mewn addysg fel sydd wedi ei osod allan ym mholisi Llywodraeth Cymru **Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol dan Ddeddf Addysg 2002**[3] (Cadw Dysgwyr yn Ddiogel) - mae dryswch ymysg cynghorau weithiau ynghylch cyfrifoldebau dros ddiogelu yn gyffredinol ar lefel uwch ar draws yr awdurdod cyfan fel sydd wedi ei osod allan yn Gweithio Gyda'n Gilydd. Gall hyn fod oherwydd bod diffyg cysondeb yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru o ran y termau a ddefnyddir ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelu ar lefelau uwch a gweithredol a sut y disgrifir eu cyfrifoldebau yn y ddwy ddogfen ganllaw a sut y mae cynghorau wedi dehongli'r ddwy ddogfen.

7 Cawsom hefyd fod cynghorau yn gweithio gyda phartneriaid fel rhan o fyrddau lleol diogelu plant i roi trosolwg strategol ar ddiogelu. Y mae datblygiad gweithio rhanbarthol ar y cyd yn cefnogi cynllunio rhyngasiantaethol effeithiol. Fodd bynnag, cawsom nad yw polisïau a gweithdrefnau diogelu yn wastad yn gyfoes a bod angen eu hadolygu i asio'n well gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru ac i ymdrin â holl wasanaethau perthnasol y cyngor.

## Nid yw trefniadau ar draws cynghorau ar gyfer recriwtio a hyfforddi diogel yn wastad yn rhoi sicrwydd fod cyfrifoldebau diogelu corfforaethol yn cael eu gweithredu'n effeithiol

8 Gall darganfod, recriwtio a hyfforddi'r bobl iawn i weithio gyda phlant fod yn anodd. Cawsom fod gan y rhan fwyaf o gynghorau systemau sefydledig ar gyfer recriwtio yn ddiogel staff ddaw i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd. Er i ni weld enghreifftiau o arfer da, fe welsom hefyd rai gwendidau cyffredin megis peidio â chymhwyso'r trefniadau hyn yn gyson ar draws holl wasanaethau perthnasol y cyngor.

3 **Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol dan Ddeddf Addysg 2002,** Llywodraeth Cymru, Ionawr 2015

9 Yn yr un modd, nid yw hyfforddiant ar ddiogelu i weithwyr ac aelodau etholedig sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd neu'n dod i gysylltiad â hwy wedi ei wreiddio'n gyson ym mhob cyngor. Mewn rhai cynghorau, cyfyngir rhaglenni hyfforddi ar ddiogelu i wasanaethau craidd, megis addysg a gofal cymdeithasol; neu mae'n cael ei gyflwyno fel hyfforddiant dewisol yn hytrach na gorfodol. Ac fe gawsom dystiolaeth hefyd o'r gwendidau canlynol mewn rhai cynghorau: systemau gwael i adnabod, olrhain a monitro presenoldeb ar hyfforddiant diogelu.

10 Mewn llawer o gynghorau, mae diogelu yn canolbwyntio ormod ar addysg a gofal cymdeithasol, a rhaid gwneud mwy i sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu corfforaethol wedi eu hintegreiddio'n llawn gyda gwaith gwasanaethau eraill sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc megis hamdden, llyfrgelloedd a thai.

## Nid yw trefniadau diogelu yn cael eu monitro na'u gwerthuso'n gyson gan gynghorau fel rhan o'u trefniadau craffu, archwilio mewnol a rheoli risg corfforaethol

11 Mae gwaith craffu pwyllgorau cynghorau, eu swyddogaethau rheoli risg ac archwilio mewnol yn hanfodol ac yn rhannau annatod o fframwaith sicrwydd cyngor a'u trefniadau gwneud penderfyniadau. Fe gawsom fod cyfyngiadau a gwendidau wrth fonitro a gwerthuso diogelu corfforaethol yn tanseilio craffu effeithiol mewn cynghorau. Nid yw archwilio mewnol yn cael ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o gynghorau i adolygu arferion diogelu. Nid yw trefniadau rheoli risg yn wastad yn ddigon cadarn i roi sicrwydd fod diogelu yn cael ei reoli yn effeithiol.

# Argymhellion

12 Yr argymhellion allweddol sy'n deillio o'n gwaith archwilio yw y dylai cynghorau wneud y canlynol:

| Argymhelliad | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|
| **A1** Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Cynghorau |
| **A2** Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Cynghorau |
| **A3** Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Cynghorau |
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Cynghorau |

| Argymhelliad | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|
| **A5** Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwyd ar lefel uwch-reolwr sy'n gyfrifol am hybu'r diogelu. | Llywodraeth Cymru |
| **A6** Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor | Cynghorau |
| **A7** Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | Cynghorau |
| **A8** Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Cynghorau |

13 Hefyd, rydym wedi gosod y gofynion sicrwydd allweddol o ran trefniadau diogelu corfforaethol effeithiol yn Atodiad 2, fel rhestr wirio i gynghorau i adolygu eu perfformiad cyfredol.

Rhan 1

# Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru, sydd yn gosod allan y trefniadau diogelu y mae'n disgwyl i gynghorau osod yn eu lle, yn ddigon clir ac y mae cydymffurfiaeth â chanllawiau gan gynghorau yn amrywio



1.1 Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei ddiogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, cam-fanteisio a thrais, ac y mae gan gynghorau ddyletswydd statudol i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc. Y mae diogelu, er hynny, yn fater llawer mwy nag amddiffyn plant. Mae a wnelo amddiffyn plant yn benodol ag amddiffyn plant a phobl ifanc rhag amheuon o gam-drin ac esgeulustod. Mae diogelu yn ehangach o lawer, ac y mae'n cynnwys popeth y gall cyngor ei wneud i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, gan gynnwys lleihau'r risg o niwed a damweiniau, cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon diogelwch a gofalu bod plant yn prifio mewn amgylchiadau diogel.

1.2 Mae diogelu hefyd yn fater o allu ymateb yn gyflym a phriodol i bryderon neu honiadau a ddygir i sylw'r cyngor, sy'n golygu cael y polisïau a'r gweithdrefnau iawn i ymdrin â sefyllfaoedd anodd petaent yn codi. Yn amlwg, mae o fudd i gynghorau a'u defnyddwyr gwasanaeth i feddu ar systemau ac arferion diogelu effeithiol. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb pawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a mudiad wneud popeth yn eu gallu i ofalu bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

1.3 Mae'r rhan hwn o'r adroddiad yn ystyried y pynciau allweddol a osodir allan yn fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu a sylwadau am sut y mae cynghorau yng Nghymru ar hyn o bryd yn gweithio i gwrdd â'r ymrwymiadau hyn. Yr ydym yn ystyried effeithiolrwydd arweinyddiaeth gorfforaethol ar ddiogelu; rolau'r cyfarwyddwr arweiniol a'r aelod arweiniol; ymwybyddiaeth ymysg staff ac aelodau'r cyngor ac ysgolion ar faterion polisi diogelu; ac effeithiolrwydd y byrddau diogelu lleol.

## Mae rhai cynghorau yn aneglur ynghylch eu cyfrifoldebau diogelu corfforaethol

1.4 Mae fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu wedi ei osod allan yn **Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004**[4] (Gweithio Gyda'n Gilydd). Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn nodi mai'r unig ffordd i gyflwyno a chynnal gwell deilliannau i blant yw trwy i bobl a chyrff allweddol weithio ynghyd i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau mwy integredig ynghylch anghenion plant a phobl ifanc. Mae angen i agwedd o'r fath gael ei harwain a'i rheoli ar lefel leol a'i chefnogi yn genedlaethol, ac y mae'n galw am well gweithio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'u partneriaid, a rhwng y partneriaid hynny a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u cymunedau.

1.5 Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn gosod rhai egwyddorion allweddol sylfaenol ar gyfer sefydlu a rheoli trefniadau diogelu effeithiol. Yn eu mysg mae:

a yr holl bobl a chyrff allweddol i weithio mewn partneriaeth i gael deilliannau ar y cyd;

b atebolrwydd cyffredinol clir ar gyfer pob gwasanaeth;

c gwasanaethau allweddol lleol wedi eu hintegreiddio, lle bo hynny'n briodol, o amgylch anghenion plant a phobl ifanc, a bod plant a phobl ifanc yn cymryd

4 **Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004,** Llywodraeth Cymru, Medi 2006

rhan weithredol mewn datblygu a gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer;

ch mae pobl a chyrff allweddol yn gweithio'n dda yn unigol â'i gilydd trwy wasanaethau cyffredinol, gwasanaethau wedi eu targedu a gwasanaethau arbenigol i ddiogelu a hybu lles plant; ac

d mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn cefnogaeth effeithiol pan ddaw'r arwyddion cyntaf o anawsterau.

1.6 Yr asiantaethau allweddol a nodir yn Gweithio Gyda'n Gilydd yw awdurdodau lleol; yr heddlu; y gwasanaeth prawf; ymddiriedolaethau'r GIG; a byrddau iechyd lleol. Mae'n hanfodol sylweddoli a bod yn ymwybodol o rôl eraill er mwyn i'r asiantaethau hyn gydweithio'n effeithiol, a dylai gweithio ar y cyd ymestyn ar draws cynllunio, comisiynu/darparu a chyflwyno eu gwasanaethau.

1.7 Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn mynnu bod prif swyddogion ac uwch-reolwyr yn darparu arweinyddiaeth gref, sefydlu atebolrwydd a threfniadau gwneud penderfyniadau clir, priodol ac effeithiol, a sicrhau bod adnoddau dynol ac ariannol yn cael eu defnyddio yn effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau o safon uchel. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn mynnu bod cynghorau yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu byrddau lleol diogelu plant a'u rhedeg yn effeithiol. Mae gofyn i gynghorau fod wedi datblygu datganiad ysgrifenedig clir o'u cyfrifoldebau tuag at blant sydd ar gael i bob gweithiwr a bod wedi sefydlu llinell atebolrwydd glir o fewn y sefydliad ar gyfer gwaith diogelu a hybu lles plant.

1.8 Mae gan brif swyddogion ac uwch-reolwyr gyfrifoldebau statudol hefyd am fonitro gweithredoedd eu gweithwyr i ddiogelu a hybu lles plant. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynnu bod cynghorau yn sicrhau y darperir eu gwasanaethau o fewn fframwaith lle mae mudiadau ac unigolion yn atebol am ansawdd eu harfer a'u gwasanaethau ac am ddarparu'r safon uchaf oll o ddiogelu. Yn yr un modd, mae angen i staff gael eu hyfforddi yn iawn, a bod yn fedrus ac yn atebol am eu hymddygiad a'u harfer.

1.9 Mae sylfaen statudol diogelu yn newid gyda gweithredu **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, sydd i ddod i rym yn Ebrill 2016 ac yn cyflwyno gofynion newydd i gryfhau a gwella diogelu. Mae hyn yn cynnwys creu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a newid yn y disgwyliadau am rôl a gwaith byrddau lleol diogelu plant. Mae rhan saith Deddf 2014 hefyd yn gosod allan yn glir gyfrifoldebau pobl a chyrff allweddol i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu gweithredu gan gadw mewn cof yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.


1.10 Mae lles plant yn gyfrifoldeb corfforaethol yr holl awdurdod lleol am fod holl wasanaethau awdurdodau lleol yn cael effaith ar fywydau plant a theuluoedd, ac y mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb arbennig tuag at y plant a'r teuluoedd hynny sydd fwyaf mewn perygl o gael eu heithrio yn gymdeithasol. Mae agwedd ddiogelu lwyddiannus felly yn galw am weithio mewn ffordd effeithiol, cydweithredu, arweiniad corfforaethol, a chydnabod pwysigrwydd lles plant.

1.11 Fe wnaethom arolwg o staff awdurdodau lleol oedd yn gweithio mewn hamdden, gwasanaethau diwylliannol a llyfrgelloedd a staff addysg heb fod yn gweithio mewn ysgolion; staff mewn ysgolion; prifathrawon; cadeiryddion llywodraethwyr; a'r holl aelodau etholedig. Defnyddiwyd arolygon yr un fath yn union ar gyfer pob grŵp er mwyn gwneud yn sicr y byddai modd cymharu'r canlyniadau. Cawsom gyfanswm o 1,990 o ymatebion: 185 gan gadeiryddion llywodraethwyr, 331 gan aelodau etholedig a 1,474 gan staff cynghorau. Galluogodd yr arolwg ni i wirio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiogelu ac i roi prawf ar gydymffurfio â gofynion allweddol Gweithio Gyda'n Gilydd.

1.12 Canfu ein harolwg fod mwyafrif yr ymatebwyr, 95.3 y cant, yn cytuno fod diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel i'w cyngor. Fodd bynnag, fel y dengys Arddangosyn 1, mae rhai aelodau, staff cyngor a chadeiryddion llywodraethwyr heb wybod fod pawb yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu cyngor – Arddangosyn 1.

## Arddangosyn 1 - Yr unigolyn(ion) a nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg fel yr un/rhai sy'n atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu cyngor

Dim ond 64 y cant o ymatebwyr oedd yn deall fod gan holl staff y cyngor, aelodau etholedig a llywodraethwyr ysgolion gyfrifoldebau dros ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu cyngor.




Ffynhonnell yr Arddangosyn: Arolwg Diogelu Swyddfa Archwilio Cymru, 2013-14

1.13 Awgryma canlyniadau ein harolwg fod gan gynghorau lawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau bod diogelu wedi ei wreiddio'n llawn. Canfu ein harolwg fod 11.3 y cant o gadeiryddion llywodraethwyr ac 8.6 y cant o staff gweithredol heb wybod pwy oedd yn atebol am ddiogelu yn eu cyngor. Hefyd, mewn gwasanaethau, dywedodd 7.6 y cant o staff mewn ysgolion ac 8.6 y cant o staff hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd yn yr un modd nad oeddent yn gwybod pwy oedd , dengys y canfyddiadau o'n harolwg fod angen i gynghorau wneud mwy i sicrhau fod pawb sydd â rôl o ran diogelu pobl ifanc yn deall eu cyfrifoldebau, a'r llinellau atebolrwydd am ddiogelu yn eu hawdurdod.

1.14 Gwelsom fod mwyafrif yr awdurdodau wedi sefydlu rhyw ffurf ar fwrdd corfforaethol i roi trosolwg ac arweiniad corfforaethol ar ddiogelu. Yr enghreifftiau gorau yw'r rhai hynny lle mae aelodau ac uwch-reolwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros ddiogelu ac wedi sefydlu pwyllgorau a/neu fyrddau perfformiad gyda'r aelodaeth yn dod o'r holl wasanaethau, sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio materion diogelu yn strategol. Er enghraifft, Pwyllgor Rhiantu Corfforaethol y Cabinet yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd ag aelodaeth eang o blith holl gyfarwyddiaethau'r cyngor ac sy'n cynnwys y tîm gweithredol, y cabinet a'r pwyllgorau craffu.

1.15 Fodd bynnag, fe welsom hefyd rai gwendidau mewn trefniadau corfforaethol yn rhai cynghorau, yn enwedig lle'r oedd newid sylweddol yn digwydd yn rheolaeth yr awdurdod, gydag uwch-reolwyr newydd yn dod i'w swyddi a newid yng nghyfrifoldebau'r rheolwyr a strwythur y sefydliad. Arweiniodd hyn yn aml at yr angen i gynghorau sefydlu systemau a phrosesau newydd ar gyfer rheoli diogelu. Nid oedd y newidiadau hyn yn rhoi sicrwydd fod gwaith diogelu'r cynghorau, ar lefel gorfforaethol, yn gweithredu'n effeithiol.

## Nid pob cyngor sydd wedi sefydlu unigolyn mewn swydd uwch ar gyfer diogelu gyda chyfrifoldebau corfforaethol dros hybu gwelliannau

1.16 Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn mynnu bod cynghorau yn nodi unigolyn a enwir ar lefel uwch-reolwr i hybu pwysigrwydd diogelu a chynnal lles plant yn y mudiad drwyddo draw. Mae'r cyfarwyddwr arweiniol yn atebol i'r prif weithredwr am wneud y tasgau a osodwyd, a thrwy hynny i aelodau pwyllgor gweithredol yr awdurdod, a'r pwyllgorau trosolwg a chraffu. Dywed Gweithio Gyda'n Gilydd fod yn rhaid i gyfarwyddwyr arweiniol fod yn uwch-swyddogion all arfer yr awdurdod angenrheidiol i arwain proses o newid fydd yn cael effaith ar ddealltwriaeth ac agwedd eu cymheiriaid tuag at weithio mewn partneriaeth. Mae'r agweddau hyn yn arbennig o bwysig o gadw mewn cof safle arweiniol awdurdodau lleol o ran hybu gweithio mewn partneriaeth ar ddiogelu. Mae Arddangosyn 2 yn esbonio rôl y cyfarwyddwr arweiniol.

Arddangosyn 2 - Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn nodi'n glir rôl y cyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am ddiogelu mewn awdurdodau lleol

**Y cyfarwyddwr arweiniol**

- Hybu cynllunio yn gorfforaethol ar draws adrannau'r Cyngor a chyda phartneriaid
- Rhoi arweiniad i sicrhau fod cynllunio partneriaethol yn cael proffil uchel yn y Cyngor
- Gofalu bod y Cyngor yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn


Ffynhonnell yr Arddangosyn: **Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004**, Llywodraeth Cymru, Medi 2006

1.17 Canfu ein harolwg fod llawer cyngor wedi dynodi swyddog arweiniol diogelu gyda chyfrifoldeb am arwain am y gwaith hwn yn y cyngor ac ar draws adrannau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mewn nifer o gynghorau fe welsom fod diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ymysg uwch-swyddogion ac aelodau ynghylch pwy sydd yn cyflenwi rôl y cyfarwyddwr arweiniol diogelu. I waethygu'r diffyg eglurder, mewn rhai cynghorau nid oes un swyddog arweiniol unigol, gyda'r cyngor yn creu swyddogion arweiniol mewn gwahanol wasanaethau.

1.18 Er enghraifft, fe welsom mewn nifer fach o gynghorau fod rheolwyr gwahanol mewn gwasanaethau cymdeithasol ac addysg sydd ar y cyd yn gweithredu cyfrifoldebau allweddol y cyfarwyddwr arweiniol. Mewn cynghorau eraill, gwelsom nad oedd cyfarwyddwr arweiniol diogelu. Mae diffyg uwch-swyddog a enwir sydd yn cymryd cyfrifoldeb corfforaethol am arwain ar hybu diogelu yn wendid o bwys o ran sicrhau fod trefniadau rhannu gwybodaeth briodol wedi eu sefydlu, fod cyngor a chanllawiau polisi o safon dda ar gael, a bod systemau i gyflwyno gwasanaethau yn gweithio'n effeithiol. Mae gwendid mewn arweiniad corfforaethol yn y maes diogelu hefyd yn gwanhau trefniadau atebolrwydd cynghorau ar gyfer diogelu.

1.19 Dim ond 67.4 y cant o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd eu bod yn gwybod pwy oedd swyddog dynodedig eu cyngor. Gwelodd ein harolwg hefyd fod diffyg ymwybyddiaeth yn arbennig mewn gwasanaethau hamdden, diwylliannol a gwasanaethau llyfrgell ac ymysg cadeiryddion llywodraethwyr ysgol, aelodau gweithredol o staff a staff gweinyddol. Mae hyn yn peri pryder arbennig oherwydd bod llawer o'r gwasanaethau a'r aelodau staff hyn yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant. Mae Arddangosyn 3 yn amlygu'r lefelau ymwybyddiaeth rhwng sectorau.

Arddangosyn 3 - Mae llawer o ymatebwyr i'r arolwg yn ansicr ynghylch pwy yw'r cyfarwyddwr arweiniol sy'n atebol am ddiogelu yn eu cyngor




Ffynhonnell yr Arddangosyn: Arolwg Diogelu Swyddfa Archwilio Cymru, 2013-14

1.20 Er bod cynghorau yn gyffredinol yn glir y dylent fod ag unigolyn penodol yn gyfrifol am ddiogelu mewn addysg fel sy'n cael ei ddatgan yng nghanllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru[5], maent yn ddryslyd weithiau ynghylch cyfrifoldebau am ddiogelu ar lefel uchel ar draws yr awdurdod cyfan fel sydd wedi ei osod allan yn Gweithio Gyda'n Gilydd. Gall hyn fod oherwydd bod peth diffyg cysondeb yng nghanllaw Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y termau a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelu ar lefel uwch-swyddog a gweithredol, a sut y disgrifir eu cyfrifoldebau yn y ddwy ddogfen ganllaw.

1.21 Er enghraifft, dywed canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel y dylid cael swyddog dynodedig i drin materion amddiffyn a diogelu plant mewn addysg. Mae hyn yn peri peth dryswch a diffyg eglurder ynghylch y ffin rhwng y rôl hon a'r 'uwch-unigolyn a enwir'. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y dogfennau canllaw wedi eu halinio'n well ac yn ategu ei gilydd.

## Nid yw rôl yr aelod arweiniol dros ddiogelu wedi ei ddatblygu'n ddigonol nac yn cael ei ddeall yn dda

1.22 Yn ogystal â chael swyddog arweiniol, mae Gweithio Gyda'n Gilydd hefyd yn mynnu bod cynghorau yn dynodi aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc at ddibenion cyd-gordio a goruchwylio trefniadau lleol. Mae rôl yr aelod arweiniol yn cyfateb i rôl y cyfarwyddwr arweiniol ond ar y lefel wleidyddol. Bydd yr aelod arweiniol yn gyfrifol y tu mewn i'r broses wleidyddol am hybu rôl arweiniol yr awdurdod o alluogi gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau fod prosesau gwneud penderfyniadau yn rhoi pwysiad priodol i'r angen am gydweithredu ar draws partneriaid.


1.23 Fel aelod etholedig o'r cyngor, dylai'r aelod arweiniol gefnogi datblygu cyfeiriad strategol am wasanaethau awdurdod lleol a dylai fod yn aelod o bwyllgor gweithredol yr awdurdod gyda chyfrifoldebau yn fras yn adlewyrchu'r swyddogaethau hynny y mae gan y cyfarwyddwr arweiniol gyfrifoldeb drostynt. Fel aelod o bwyllgor gweithredol yr awdurdod lleol, bydd yr aelod arweiniol mewn sefyllfa i amlygu atebolrwydd y prif swyddogion i'r prif weithredwr a'r aelodau etholedig am gyfraniad eu gwasanaeth penodol i wella deilliannau i blant a phobl ifanc, ac i gwrdd â'u cyfrifoldebau diogelu.

1.24 Cawsom rai esiamplau da o arweiniad gwleidyddol cryf yn y maes diogelu yn nifer o gynghorau Cymru. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi creu Aelod Cabinet dros Ddiogelu ac wedi creu Pwyllgor Craffu Diogelu unswydd gyda chynrychiolaeth ar draws gwasanaethau. Yn yr un modd, creodd Cyngor Sir Ceredigion hefyd Aelod Cabinet arweiniol dros Ddiogelu ac y mae gan Aelod Cabinet Gwasanaethau Plant, Addysg a Sgiliau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rôl hyrwyddwr plant.

5 **Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol dan Ddeddf Addysg 2002,** Llywodraeth Cymru, Ionawr 2015

1.25 Dengys Arddangosyn 4 nad yw dros 55 y cant o ymatebwyr i'r arolwg yn gwybod pwy yw aelod arweiniol y cyngor dros ddiogelu. Ym mhob un o'r gwasanaethau a'r gwahanol raddfeydd o staff yn yr arolwg, llai na hanner oedd yn gwybod pwy yw'r aelod arweiniol dros ddiogelu ac amddiffyn plant, ac eithrio am uwch-reolwyr a chynghorwyr.

Arddangosyn 4 - Mae mwyafrif ymatebwyr yr arolwg heb wybod pwy yw'r aelod arweiniol atebol dros ddiogelu yn eu cyngor




Ffynhonnell yr Arddangosyn: Arolwg Diogelu Swyddfa Archwilio Cymru, 2013-14

## Mae byrddau lleol diogelu plant yn rhoi peth cyfeiriad strategol ac y mae datblygu gweithio rhanbarthol ar y cyd yn cefnogi cynllunio rhyngasiantaethol effeithiol, ond dylai polisïau a gweithdrefnau diogelu asio'n well gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru a rhaid iddynt ymdrin â holl wasanaethau perthnasol y cyngor

1.26 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen, trwy ymgynghori ag amrywiaeth eang o asiantaethau eraill, a rhaid i gynghorau gymryd y cyfrifoldeb arweiniol am sefydlu byrddau lleol diogelu plant a'u rhedeg yn effeithiol - y fforwm rhyngasiantaethol sy'n gweithredu fel pwynt ar gyfer cydweithredu lleol i ddiogelu plant.

1.27 Nod byrddau lleol diogelu plant yw hybu safonau uchel o waith diogelu a meithrin diwylliant o wella parhaus. Mae gan fyrddau lleol diogelu plant hefyd gyfrifoldeb i ddatblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau plant o ran cwrdd â blaenoriaethau eu cynllun lleol plant a phobl ifanc, i'r graddau y mae a wnelo'r cynllun â diogelu a hybu lles plant. Wrth feddwl yn fwy corfforaethol am beth fydd o les i ddinasyddion lleol, mae rhai awdurdodau wedi llunio strwythurau rheoli sydd yn torri ar draws ffiniau adrannol a gwasanaeth traddodiadol.

1.28 Er enghraifft, mae Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru yn ymestyn dros bum cyngor Gwent ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2013. Partneriaeth amlasiantaethol yw hon sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gwent, cyfarwyddiaethau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg y pum cyngor, y sector wirfoddol, gwasanaethau troseddu ieuenctid, Ymddiriedolaeth Profiannaeth Cymru Gyfan, Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Llysoedd Plant a Theulu Cymru, cymdeithasau tai, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Diben Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru yw sicrhau bod diogelu plant yn aros yn uchel ar yr agenda ar draws y rhanbarth. Yn yr un modd, mae cynghorau bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi creu Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf.

1.29 Yn ychwanegol at greu byrddau diogelu ar y cyd, mae gofyn i gynghorau hefyd gael datganiad polisi clir am eu cyfrifoldebau penodol yng nghyswllt plant a ddylai fod ar gael i bob gweithiwr ym mhob gwasanaeth. Dylai'r datganiad hwn fod yn gymwys i unrhyw blant yng ngofal y cyngor, unrhyw rai y maent yn gweithio gyda hwy yn uniongyrchol neu rai y maent hwy neu eu cleientiaid yn dod i gysylltiad â nhw. Tra gall y datganiad hwn ffurfio rhan o bolisi a/neu weithdrefnau presennol cyngor, dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar ddiogelu a hybu lles plant, a phwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc, yn enwedig pan fyddant yn mynegi pryderon am eu lles eu hunain neu eraill.

1.30 Canfu ein hadolygiad fod y rhan fwyaf o gynghorau wedi datblygu polisi corfforaethol ar ddiogelu i roi cyfeiriad strategol i'w gwaith. Er enghraifft, mabwysiadodd Cyngor Sir Ddinbych, trwy'r cyngor llawn, bolisi diogelu corfforaethol a chynllun gweithredu i gefnogi gwelliant. Cydnabu'r cyngor fod angen iddo gryfhau ei ffocws corfforaethol ar ddiogelu er mwyn ei wneud yn fusnes pawb ym mhob gwasanaeth yn y cyngor. Yn wir, gwnaeth y cyngor y maes diogelu yn un o'i flaenoriaethau corfforaethol i sicrhau y gwarchodir pobl fregus ac y gallant fyw mor annibynnol ag sydd modd.

1.31 Fodd bynnag, mewn nifer fechan o gynghorau fe welsom fod polisïau amddiffyn plant penodol i wasanaethau yn ymdrin, er enghraifft, ag ysgolion, addysg, gofal cymdeithasol, tai a gwasanaethau hamdden ond nid oedd y rhain wedi eu halinio â pholisi diogelu corfforaethol i sicrhau fod pob gwasanaeth yn gweithredu'n gyson. Mae agwedd mor bytiog at greu ac adolygu polisïau yn gwanhau trefniadau sicrwydd lleol ac y mae angen i gynghorau sicrhau eu bod yn alinio polisïau diogelu ac amddiffyn plant ar lefel gwasanaeth gyda pholisi corfforaethol.

1.32 Fe welsom hefyd fod nifer sylweddol o gynghorau yn defnyddio[6] ond nid ydynt wedi datblygu polisi corfforaethol sydd yn gosod allan eu hamgylchiadau lleol, cyd-destun a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Hefyd, yr oedd nifer fechan o gynghorau wedi datblygu polisïau diogelu cyffredinol corfforaethol, ond seilir y rhain yn bennaf ar wasanaethau penodol - addysg a gofal cymdeithasol fel arfer - ac o'r herwydd nid ydynt yn rhoi trosolwg corfforaethol ac ychydig o gyfeirio yn unig sydd at feysydd eraill lle mae'r cyngor yn gweithredu.

1.33 Canfu ein harolwg fod 83.9 y cant o ymatebwyr yn cytuno fod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn glir ar gyfer eu cyngor. Tra bod 6.5 y cant yn unig yn anghytuno â'r safbwynt hwn, staff gweithredol a rheolwyr gwasanaeth oedd yr ymatebwyr hyn yn bennaf, oedd yn gweithio mewn gwasanaethau hamdden, diwylliannol a llyfrgelloedd. Mae hyn yn amlygu nad yw ymwybyddiaeth a pherchenogaeth yn y gwasanaethau hyn wedi ei wreiddio cystal ag mewn gwasanaethau addysg. Cadarnheir hyn gan y gyfradd ymateb gadarnhaol gan staff mewn ysgolion lle cytunodd 93.6 y cant o ymatebwyr fod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn glir ar gyfer eu hysgol.

1.34 O ran ymwneud â rhieni, dim ond 55.1 y cant o ymatebwyr i'n harolwg oedd yn cytuno fod eu cyngor yn rhoi gwybod i rieni sut y mae eu plant yn cael eu diogelu a'u gwarchod wrth ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor ac ysgolion. Yr oedd 12.3 y cant yn anghytuno a'r datganiad hwn a dywedodd ychydig dan draean o ymatebwyr (32.6 y cant) nad oeddent yn gwybod. Yr oedd hyn yn cynnwys ychydig dan hanner y staff gweithredol a ymatebodd i'n harolwg (44.2 y cant) a niferoedd sylweddol o staff hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd (45.1 y cant); staff addysg canolog (36.9 y cant); a staff mewn ysgolion (27.4 y cant). Dengys hyn fod cyfathrebu mewnol gyda gwasanaethau rheng flaen a llif gwybodaeth rhwng y cyngor a defnyddwyr gwasanaeth yn faes y gellid ei wella yn sylweddol.

6 **Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008**, www.awcpp.org.uk

1.35 Fe wnaethom holi staff mewn addysg a gwasanaethau hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd a oedd eu barn yn cael ei ystyried pan fo polisïau yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn cael eu hadolygu. Fe welsom fod 57.5 y cant o ymatebwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei ystyried, tra bod 21.2 y cant yn anghytuno a 21.3 y cant ddim yn gwybod. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith fod angen i gynghorau wneud mwy i ystyried bod barn staff yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau gweithredol ar gyfer diogelu.

## Rhan 2

# Nid yw trefniadau ar draws cynghorau ar gyfer recriwtio a hyfforddi diogel yn wastad yn rhoi sicrwydd fod cyfrifoldebau diogelu corfforaethol yn cael eu gweithredu'n effeithiol



2.1 Gall darganfod, recriwtio a hyfforddi'r bobl iawn i weithio gyda phlant fod yn anodd. Mae angen i brosesau recriwtio a hyfforddi ymdrin â phawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd, a'r rhai sydd â rôl i'w chwarae wrth ddiogelu plant. Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o systemau yn y cyngor sy'n cefnogi diogelu, a dylid esbonio'r rhain iddynt fel rhan o'r drefn gynefino. Gall hyn gynnwys polisi amddiffyn plant y cyngor; polisi ymddygiad staff (a elwir weithiau yn god ymddygiad); polisïau honiadau a disgyblu; a manylion am rolau swyddog(ion) arweiniol diogelu dynodedig.

2.2 Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn mynnu bod cynghorau yn sicrhau y dylai'r holl staff fod wedi derbyn hyfforddiant priodol am amddiffyn plant, a hwnnw'n cael ei gyfoesi'n rheolaidd. Dylai staff fod yn ymwybodol o arwyddion cam-drin ac esgeulustod fel y gallant weld pa blant a all fod angen help neu warchodaeth. Yn rhan hwn yr adroddiad, byddwn yn asesu trefniadau recriwtio a hyfforddi cynghorau ac a ydynt yn rhoi digon o sicrwydd fod systemau i recriwtio a hyfforddi staff yn gweithio'n effeithiol.

## Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi sefydlu systemau ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel, ond nid yw'r trefniadau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob gwasanaeth perthnasol

2.3 Mae'n hanfodol fod cynghorau yn creu diwylliant o recriwtio diogel ac yn mabwysiadu gweithdrefnau recriwtio sy'n helpu i atal, adnabod a gwrthod pobl a allai fod yn risg i blant. Rhaid i gynghorau weithredu'n rhesymol wrth wneud penderfyniadau am addasrwydd darpar-weithwyr ar sail gwiriadau a thystiolaeth gan gynnwys: gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal[7] (GDA) am record droseddol; gwiriadau rhestr waharddedig; geirda gan gyflogwyr a phersonol; a gwybodaeth a gafwyd mewn cyfweliadau.

2.4 Rhaid i bobl sy'n gyfrifol am recriwtio gweithwyr i weithio gyda phlant a'u teuluoedd gael yr hyfforddiant priodol. Lle mae'n rhaid cael gwiriad record droseddol mewn gwaith, rhaid cynnal y rhain fel mater o drefn a'u hail-adrodd yn rheolaidd trwy gydol cyfnod y gyflogaeth. Lle bo hynny'n briodol, dylid cael datgeliad gan y GDA ac yr oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau a adolygwyd gennym brosesau yn eu lle ar gyfer recriwtio diogel.

2.5 Dylai pob asiantaeth a mudiad y mae eu staff, gwirfoddolwyr neu ofalwyr maeth yn gweithio'n agos gyda phlant fod â pholisïau a gweithdrefnau i atal y sawl sy'n anaddas i weithio gyda phlant. Elfen allweddol yn hyn yw sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel effeithiol ar gael, a datblygu polisïau a phrotocolau effeithiol ar rannu gwybodaeth yn y cyngor a chydag asiantaethau eraill.

2.6 Gwelodd ein hadolygiad rai agweddau da at recriwtio diogel, ac yr ydym yn amlygu'r rhain fel arfer da.

7 Mae'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau diogel am recriwtio ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau bregus, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Biwro Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae tîm Adnoddau Dynol canolog Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi sefydlu system sydd yn gofalu fod pob swydd sydd yn galw am wiriadau GDA yn cael eu nodi a bod deiliaid swyddi posib yn cael eu gwirio yn briodol pan gyflogir hwy, a'u gwirio hefyd bob tair blynedd. Mae manylebion gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau perthnasol sy'n cael eu pwrcasu'n allanol yn cynnwys cyfeiriad at yr angen am wiriadau staff GDA a hyfforddiant diogelu. Cynhaliwyd archwiliadau mewnol ar wiriadau GDA, er enghraifft gwiriadau gyrwyr gwirfoddol.

### Cyngor Dinas Casnewydd

Mae swyddogaethau recriwtio a dethol Cyngor Dinas Casnewydd yn awr yn cael eu rhedeg gan un tîm Adnoddau Dynol ac wedi cael eu dwyn at ei gilydd er mwyn sicrhau bod agwedd gyson tuag at recriwtio diogel ar draws y cyngor. Lle nodir swydd fel un sydd angen gwiriad datgelu GDA safonol neu uwch, ni chaiff darpar-weithiwr gychwyn gweithio nes i'r gwiriad datgelu gael ei dderbyn a'i asesu gan Adnoddau Dynol a'r rheolwr sydd yn penodi. Tra bod y cyngor yn cyflogi staff cyn cael gwiriadau GDA, ni chaniateir iddynt weithio ar eiddo gyda phlant hyd nes i'r gwiriadau GDA gael eu derbyn a'u llofnodi.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datblygu Polisi Recriwtio Diogel penodol, sydd yn gosod allan y safonau mae'r cyngor yn ei ddisgwyl o ran recriwtio diogel a chadw staff sy'n gweithio gyda grwpiau bregus, gan gynnwys plant. Mae hyn yn ategu polisi Recriwtio a Dethol y cyngor, sydd yn gosod allan y gwiriadau ehangach a gynhelir cyn cyflogi. Cefnogir hyn hefyd gan lawlyfr Canllaw Recriwtio Diogel, sydd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i lywio rheolwyr trwy'r broses o recriwtio diogel. Mae hyfforddiant ar recriwtio diogel yn orfodol i'r holl staff perthnasol ac y mae wedi ei gynnwys hefyd ym mhob contract trydydd parti, a sefydlodd y cyngor ganllawiau clir i ysgolion ar gyflogi staff dysgu o asiantaethau allanol i wneud gwaith llanw am gyfnodau byr mewn ysgolion.

2.7 Fodd bynnag, fe welsom hefyd rai enghreifftiau o wendidau mewn systemau mewn rhai cynghorau sydd angen ymdrin â hwy, gan gynnwys:

a gwiriadau GDA a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel nad oedd yn ymdrin â phob gwasanaeth a staff sy'n dod i gysylltiad rheolaidd gyda phlant;

b cadw cofnodion gwael, lle nad oedd cofnodion yn ymdrin â phob gwasanaeth ac ysgol er mwyn sicrhau fod pob gwasanaeth a staff a ddylai gydymffurfio â'u cyfrifoldebau diogelu corfforaethol, yn gwneud hynny;

c systemau recriwtio ar wahân i addysg, ysgolion, gofal cymdeithasol a/neu adrannau eraill, sydd wedi arwain at ddefnyddio gwahanol agweddau nad yw'n rhoi digon o sicrwydd fod trefniadau corfforaethol yn effeithiol;

ch systemau maniwal ar gyfer rheoli recriwtio diogel a gwiriadau cydymffurfio GDA sydd yn tanseilio rheolaeth y cynlluniau hyn; a

d dim digon o hybu'r angen am arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn enwedig yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynwyd a/neu a ddefnyddir gan y cyngor, gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.

2.8 Canfuom fod 95.5 y cant o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn glir sut mae eu swydd neu eu rôl gyfredol yn cyfrannu at ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu cyngor. Fodd bynnag, dim ond 75 y cant o ymatebwyr oedd yn cytuno bod y cyfrifoldebau hyn wedi eu hesbonio'n ffurfiol ac yn glir iddynt pan wnaethant gychwyn ar eu rôl bresennol yn y cyngor neu'r ysgol. Dywedodd cyfran sylweddol (23.2 y cant) na chawsant wybod am eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu ac ni allai 1.8 y cant gofio a esboniwyd yr atebolrwydd hwn iddynt ai peidio.

## Nid yw hyfforddiant ar ddiogelu i aelodau etholedig a gweithwyr sy'n gweithio neu'n dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd yn cael ei wreiddio'n gyson ym mhob cyngor

2.9 Mae angen i gynghorau ddatblygu a darparu hyfforddiant parhaus ar faterion diogelu ac ar sut i hybu lles plant i bob gweithiwr sy'n gweithio gyda phlant neu eu teuluoedd neu sy'n dod i gysylltiad â hwy. Ni ddylid cyfyngu hyn i addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a rhaid i gynghorau sicrhau eu bod yn blaenoriaethu ac yn codi ymwybyddiaeth ymysg pob gweithiwr o'u rôl mewn diogelu plant. Dylai cynghorau hefyd, lle bo hynny'n briodol, alluogi eu gweithwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant a ddarperir yn rhyng-asiantaethol.

2.10 Wrth arfer eu dyletswydd i ddiogelu a hybu lles plant, mae angen i gynghorau sicrhau'r canlynol:

a fod yr holl weithwyr sy'n gweithio, neu mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn hyfforddiant perthnasol wedi ei deilwrio i'w swyddogaethau unigol;

b y cedwir gweithwyr mewn safle uwch yn gyfoes â newidiadau mewn gofynion statudol a ffyrdd newydd seiliedig ar dystiolaeth o weithio gyda phlant a theuluoedd fel bod modd rhaeadru'r wybodaeth berthnasol i lawr i'r rhai yn y rheng flaen;

c fod hyfforddiant i weithwyr sy'n gweithio neu mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd neu gydag oedolion a all fod yn risg i blant yn cael ei ddarparu fesul asiantaeth unigol ac yn rhyng-asiantaethol;

ch fod gan y gweithwyr hyn fynediad at y canllaw hwn a'u bod yn cael eu hyfforddi ar sut i'w ddefnyddio yn effeithiol;

d fod gweithwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hun a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol a mudiadau ar gyfer diogelu a hybu lles plant; a

dd bod gweithwyr yn ymwybodol o faterion amrywiaeth gan gynnwys hil, diwylliant ac anabledd, a'r effaith a gânt ar fywyd teuluol.

2.11 Mae llawer o gynghorau Cymru wedi adolygu eu rhaglenni hyfforddi a datblygu i gryfhau'r arferion sydd ganddynt, ac fe welsom nifer o themâu cadarnhaol yn ymddangos yn y maes hwn ymysg yr awdurdodau sy'n perfformio orau. Er enghraifft:

a diogelu yn cael ei gynnwys fel eitem safonol ar raglen gynefino cyngor ar gyfer pob dechreuwr newydd, gan gynnwys teilwrio'r hyfforddiant i adlewyrchu gwahanol rolau a chyfrifoldebau swyddogion mewn gwahanol wasanaethau ac ar lefelau gwahanol o uwch swyddi;

b hyfforddiant gloywi yn cael ei roi i staff, aelodau etholedig, llywodraethwyr ysgolion, partneriaid a gwirfoddolwyr pan fo polisïau, gweithdrefnau, deddfwriaeth neu adolygiadau achosion difrifol yn mynnu newid mewn polisi a/neu drefniadau gweithredol lleol;

c rhaglenni treigl o hyfforddiant diogelu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn enwedig ymysg gwasanaethau rheng flaen, a reolir ac a gyflwynir yn ganolog er mwyn sicrhau bod llawer yn cymryd rhan ym mhob maes gwasanaeth;


ch ei gwneud yn gymal safonol mewn contractau fod partneriaid a chontractwyr yn dilyn hyfforddiant diogelu ar wasanaethau blant a phobl ifanc a sicrhau fod hyfforddiant diogelu ar agor i gyrff gwirfoddol; a

d defnyddio'r broses adolygiad datblygu personol blynyddol i wirio fod yr holl staff a gwirfoddolwyr priodol wedi eu hyfforddi mewn diogelu plant a gweld lle mae angen hyfforddiant gloywi.

2.12 Mae Arddangosyn 5 yn dangos fod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r arolwg – 84 y cant – wedi dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant diogelu, 10 y cant wedi dweud nad oeddent ac ni allai chwech y cant gofio a gawsant ef ai peidio.

Arddangosyn 5 - Darparu hyfforddiant ar ddiogelu i aelodau etholedig, staff cyngor a chadeiryddion llywodraethwyr ysgolion

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ond nid yw 10 y cant o ymatebwyr wedi ei gael.




Ffynhonnell yr Arddangosyn: Arolwg Diogelu Swyddfa Archwilio Cymru, 2013-14

2.13 Yr oedd cyfran uchel iawn o ymatebwyr i'r arolwg, 94.4 y cant, yn cytuno eu bod yn gwybod beth i'w wneud petai ganddynt bryderon am ddiogelwch a lles plentyn; yr oedd 78.6 y cant yn cytuno fod eu cyngor yn gwneud popeth y gallai i leihau'r risg o niwed i blentyn; ac yr oedd 70 y cant yn cytuno fod eu cyngor yn buddsoddi'n ddigonol mewn diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, o'r ymatebwyr hynny yn yr arolwg oedd yn anghytuno â'r datganiadau hyn, yr oedd y mwyafrif yn staff gweithredol mewn gwasanaethau hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd. Dengys hyn, tra bod cynghorau yn rhoi hyfforddiant ar ddiogelu, nad yw ymdriniaeth a chyfranogi yn wastad yn cael ei ymestyn i'r holl wasanaethau perthnasol a bod yr ymwybyddiaeth o arferion cyfredol yn amrywio rhwng gwasanaethau. Mae angen i gynghorau sicrhau fod pawb sy'n dod i gysylltiad rheolaidd gyda phlant yn derbyn hyfforddiant a gwybodaeth ar eu cyfrifoldebau penodol ar ddiogelu.

2.14 Fe welsom hefyd nifer o wendidau eraill yng nghyswllt agwedd rhai cynghorau at hyfforddiant diogelu. Yn eu mysg mae:

a rhaglenni hyfforddi wedi eu cyfyngu i wasanaethau craidd megis addysg a gofal cymdeithasol ond heb gael eu hymestyn i bob gwasanaeth gweithredol perthnasol, neu beidio cael eu cynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;

b dim systemau, neu rai cyfyngedig yn unig, i nodi, olrhain a monitro presenoldeb ar hyfforddiant diogelu, a pheidio ag ymestyn systemau presennol i gofnodi presenoldeb ymysg, er enghraifft, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr;

c hyfforddiant diogelu yn ddewisol yn hytrach na gorfodol, sy’n arwain at ymdriniaeth dameidiog a dim llawer yn ei ddilyn;

ch teilwrio cyfyngedig ar hyfforddiant diogelu i annog cyfranogi gan grwpiau ac aelodau anodd eu cyrraedd; a

d dim gofyniad ar staff mewn sefydliadau sy’n bartneriaid a gomisiynir i weithio i’r cyngor i ddilyn hyfforddiant diogelu.

2.15 Mae ymdriniaeth anghyflawn mewn rhaglenni hyfforddiant diogelu yn golygu nad yw cynghorau yn ymdrin â gwendidau mewn sgiliau yn y gweithle nac yn cefnogi eu staff i wella. Mae diffyg rhaglen hyfforddi a datblygu strwythuredig hefyd yn golygu na all cynghorau sicrhau bod gan eu gweithwyr ddealltwriaeth gyson a gwybodaeth gefndir, sydd yn arbennig o berthnasol mewn maes risg pwysig fel diogelu. Gall hefyd effeithio ar foddhad y staff gan fod buddsoddi mewn hyfforddi yn dangos i’r gweithwyr y rhoddir gwerth arnynt, a bod staff sy’n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u herio trwy gyfleoedd hyfforddi yn fwy bodlon yn eu gwaith ac yn yr hyn a wnânt.

## Rhan 3

# Nid yw trefniadau diogelu yn cael eu monitro na'u gwerthuso'n gyson gan gynghorau fel rhan o'u trefniadau craffu, archwilio mewnol a rheoli risg corfforaethol



3.1 Gall pwyllgor(au) craffu cyngor a phrosesau rheoli risg ac archwilio mewnol roi sicrwydd fod trefniadau lleol yn gweithio yn effeithiol ac fel y bwriadwyd, nodi meysydd i wella ac a oes risgiau y mae angen eu lliniaru. O'u cymryd ynghyd, mae rheoli risg ac archwilio mewnol yn rhannau hanfodol annatod o fframwaith sicrwydd cyngor a'i drefniadau gwneud penderfyniadau. Gallant hefyd:

a roi sicrwydd fod prawf cadarn yn cael ei roi ar weithdrefnau a gweithgareddau a chadarnhau fod systemau yn addas at y diben;

b sicrhau bod gan gyngor drefniadau llywodraethiant effeithiol;

c gwneud y craffu a'r goruchwylio angenrheidiol ar benderfyniadau, polisïau a gwasanaethau a gwneud yn siŵr fod y cyngor yn atebol i bobl leol; a

ch rhoi sicrwydd fod y cyngor yn cydymffurfio â'i oblygiadau statudol.

## Mae cyfyngiadau o ran monitro a gwerthuso diogelu corfforaethol yn gwanhau rôl craffu i herio perfformiad a dal llunwyr penderfyniadau i gyfrif

3.2 Sefydlwyd pwyllgorau trosolwg a chraffu yn awdurdodau lleol Cymru a Lloegr dan **Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**. Fe'u bwriadwyd fel gwrthbwys i'r strwythurau gweithredol newydd a grëwyd gan y ddeddf honno (meiri etholedig neu arweinyddion a chabinet). Mae gofyn i gynghorau sy'n rhedeg trefniadau gweithredol greu pwyllgor trosolwg a chraffu, o gynghorwyr nad ydynt ar bwyllgor gwaith na chabinet y cyngor hwnnw.

3.3 Gall pwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd ymchwilio i unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal leol, neu drigolion yr ardal, boed hynny yn gyfrifoldeb uniongyrchol cabinet y cyngor neu beidio. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bwyllgorau trosolwg a chraffu feddu ar yr hawl i 'alw penderfyniadau i mewn' - h.y., gofyn i'r sawl wnaeth y penderfyniad ail-feddwl, neu gyfeirio'r penderfyniad at y cyngor llawn os credir bod lluniwr y penderfyniad wedi cymryd penderfyniad sy'n groes i gyllideb neu fframwaith polisi'r cyngor.

3.4 Hefyd, mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn nodi nifer o swyddogaethau allweddol i graffu o ran diogelu, gan gynnwys y gofyniad fod y cyfarwyddwr arweiniol yn atebol i'r prif weithredwr a thrwy hynny i aelodau pwyllgor gwaith yr awdurdod, a'r pwyllgorau trosolwg a chraffu. Hefyd, dylid craffu ar waith y bwrdd lleol diogelu plant gan yr awdurdod lleol, y pwyllgorau trosolwg a chraffu fel arfer, er mwyn sicrhau bod trosolwg clir ar drefniadau diogelu ac i herio tanberfformiad.

3.5 Nododd ein hadolygiad rai agweddau da o ran rheoli perfformiad ac yr ydym yn amlygu'r rhain fel arfer da.

### Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi nodi pa wybodaeth mae arnynt ei angen i fonitro a gwerthuso a yw ei drefniadau diogelu plant yn gweithio'n effeithiol. Mae'r cyngor yn defnyddio nifer o ddangosyddion perfformiad i fesur perfformiad ar draws y cyngor. Mae gan bob dangosydd darged gwaelodlin a rhoddir adroddiad arno a'i drafod yn fewnol yn yr adran berthnasol ac yn ffurfiol trwy adroddiadau safonol chwarterol i'r Dirprwy Arweinydd a Phennaeth Perfformiad a Gwella'r cyngor.

Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn cynnal sesiynau llawn chwarterol ar gyfer rheoli perfformiad, lle mae'r cabinet, cyfarwyddwyr strategol, penaethiaid gwasanaeth a chadeiryddion craffu yn cael cyfle i werthuso perfformiad ar draws y cyngor cyfan. Mae agwedd y cyngor at reoli perfformiad yn y maes diogelu yn galluogi adnabod unrhyw fater sydd angen ei graffu neu ei herio. Mae'r wybodaeth rheoli perfformiad hefyd yn cael ei ddefnyddio fel sail o wybodaeth i flaen-raglenni gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac y mae hyn yn fforwm i berfformiad diogelu gael ei asesu a'i herio yn gadarn.

### Cyngor Sir Ddinbych

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych drefniadau llywodraethu a chraffu cadarn i reoli'r modd mae'n diogelu plant. Mae'r cyngor wedi nodi pa wybodaeth y mae arno ei angen i fonitro a gwerthuso ei drefniadau diogelu plant, ac wedi sefydlu set isafswm o ddata craidd i farnu perfformiad. Mae'r cyngor hefyd yn rheolaidd yn monitro ac yn adolygu gwybodaeth am berfformiad diogelu plant. Mae'n yn adrodd yn rheolaidd i bwyllgorau craffu, yn monitro perfformiad dros amser ac yn meincnodi yn rheolaidd gyda chynghorau eraill yn y gogledd. Mae'r cyngor hefyd yn cydnabod fod angen datblygu mwy ar ei drefniadau adrodd am berfformiad i ddal ystod ehangach o wybodaeth, megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA), ac y mae'n mynd i'r afael â hyn.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae gan y cyngor amrywiol systemau i fonitro, adolygu a herio perfformiad, gan gynnwys adroddiad diogelu blynyddol, sydd yn gosod allan wybodaeth ehangach yn ymwneud â gweithgaredd diogelu, amserlenni a gallu. Hefyd, cawsom dystiolaeth yn dangos fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Phobl Ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisïau a strategaethau.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i aelodau am wybodaeth rheoli perfformiad allweddol mewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant. Trwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, mae'r cyngor yn meincnodi ac yn asesu ei berfformiad dros amser, a bydd pwyllgorau craffu yn derbyn crynodeb o adroddiadau ar berfformiad sydd yn dangos y ffordd at adroddiadau manylach.

3.6 Elfen hanfodol o graffu yw defnyddio gwybodaeth i alluogi llunwyr penderfyniadau i gymryd dewisiadau polisi a gweithredol gwybodus ar sail o dystiolaeth. O'n hadolygiad, fe welsom mai dyma faes gwaith lle cafodd cynghorau anhawster, gyda ffocws y data cyfredol yn edrych yn bennaf ar berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol; peth data yn ymwneud â'r galw am y gwasanaeth; ac amseroedd ymateb. Mae llawer o'r wybodaeth hon mewn gwahanol fannau ac nid yw'n cael ei ddadansoddi nac adrodd arno mewn modd sydd yn galluogi craffu'n effeithiol ar yr holl gyfrifoldebau diogelu corfforaethol. Mae'r cyfyngiadau hyn mewn systemau rheoli gwybodaeth felly'n ei gwneud yn anodd i gynghorwyr, uwch-reolwyr, staff gweithredol a'r cyhoedd werthuso pa mor dda y mae'r cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu.

3.7 Yn benodol, fe welsom rai gwendidau cyffredin sy'n tanseilio gwaith craffu cynghorau o ran rhoi sicrwydd ar drefniadau diogelu corfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau yn gwneud y canlynol:

a Peidio ag adrodd yn ffurfiol ar ofynion a pherfformiad diogelu i bwyllgorau craffu neu'r cabinet yn rheolaidd, ar wahân i fod yn adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.

b Cyfyngu craffu ar berfformiad i ymdrin â dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn unig a data perfformiad arall seiliedig ar wasanaeth, heb graffu ar ardaloedd allweddol megis presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu, er enghraifft.

c Adrodd gwybodaeth am wasanaethau plant ac amddiffyn plant yn unig yng nghyswllt gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg, ond heb roi prawf ar waith mewn gwasanaethau eraill sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phlant neu a all roi sicrwydd ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol.

ch Peidio â defnyddio data perthnasol ac ystyrlon i farnu ansawdd ac effeithiolrwydd perfformiad trefniadau diogelu; er enghraifft, cydymffurfio â gwiriadau GDA ac ymdrin â hwy.

d Mae diffyg systemau effeithiol i allu dwyn ynghyd ddata perfformiad a bod ag ychydig iawn o systemau rheoli gwybodaeth sydd wedi gwir integreiddio yn ei gwneud yn anodd iawn holi a chraffu ar berfformiad.

dd Cyfyngu dadansoddi i ganoli ar ddata penodol i'r cyngor heb ehangu'r craffu i gymharu a meincnodi gydag eraill.

## Cyfyngedig yw rôl archwilio mewnol o ran rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol

3.8 Mae archwilio mewnol yn darparu nifer o wasanaethau pwysig gan gynnwys canfod ac atal twyll, rhoi prawf ar gamau rheoli mewnol, a monitro cydymffurfio â pholisi cynghorau a rheoliadau llywodraeth. Gall cynllun archwilio mewnol ffurfiol, sydd yn cynnwys archwilio yn rheolaidd bolisïau a gweithdrefnau diogelu, hefyd roi sicrwydd fod systemau mewnol yn effeithiol ac yn gweithio yn effeithlon. Gall archwilio mewnol felly roi sicrwydd fod y cyngor yn cydymffurfio â gofynion a chanllawiau statudol diogelu.

3.9 Ar yr ochr gadarnhaol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, Cyngor Sir Dinbych a Rhondda Cynon Taf oll wedi cynnwys materion diogelu ac amddiffyn plant yn eu cynlluniau archwilio mewnol ac wedi peri bod gwahanol elfennau'r trefniadau hyn wedi cael eu hadolygu trwy archwilio mewnol. Mae cynnwys materion diogelu ar raglenni gwaith archwilio mewnol wedi galluogi'r cynghorau hyn i roi sicrwydd i uwch-reolwyr ac aelodau etholedig fod polisïau a gweithdrefnau'r cynghorau yn rhedeg yn effeithiol ac i nodi cyfleoedd i wella. Hefyd, mae rhai cynghorau, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn defnyddio'r tîm archwilio mewnol i wirio cydymffurfio mewn meysydd allweddol, er enghraifft, gwiriadau GDA i yrwyr gwirfoddol.

3.10 Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn cynnwys trefniadau diogelu corfforaethol yn rheolaidd mewn rhaglenni archwilio mewnol. Mewn rhai cynghorau, gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â defnyddio archwilio mewnol oherwydd bod diogelu yn cael ei weld fel maes gwaith rhy arbenigol i archwilwyr ei adolygu, a defnyddiwyd adolygu gan gyfoedion mewn gofal cymdeithasol ac addysg fel modd o roi prawf ar effeithiolrwydd y trefniadau presennol. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i beidio â defnyddio archwilio mewnol i wneud gwiriadau yn anwybyddu eu harbenigedd mewn profi systemau ac adolygu cydymffurfiaeth, sydd yn feysydd gwaith allweddol a rheolaidd i dimau archwilio mewnol, ac a allai roi prawf ar effeithiolrwydd elfennau o gyfrifoldebau diogelu corfforaethol cyngor.

## Nid yw prosesau rheoli risg cynghorau yn wastad yn ddigon cadarn i roi sicrwydd fod cyfrifoldebau diogelu corfforaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol

3.11 Mae rheoli risg yn rhan bwysig o drefniadau cynllunio strategol cynghorau, ac o'i wneud yn dda, gall roi sicrwydd i gynghorau bod y risg i rai mathau o bethau ddigwydd neu gael effaith ar fusnes y cyngor yn cael ei leihau neu ddileu. Mae rheoli risg yn effeithiol yn broses o adnabod, asesu a blaenoriaethu risgiau o wahanol fath, ac, unwaith i'r risgiau gael eu hadnabod, creu cynllun i leihau neu ddileu effaith digwyddiadau negyddol.

3.12 Mae llawer math o risg y gall cynlluniau rheoli risg helpu i'w hadnabod. Ymysg risgiau cyffredin mae pethau fel damweiniau yn y gweithle neu risgiau cyfreithiol fel twyll, dwyn, neu ymgyfreithio dan gyfraith cyflogaeth. Gall risgiau hefyd

ymwneud ag arferion busnes, ansicrwydd mewn marchnadoedd ariannol, methiant prosiectau, risgiau credyd, neu ddiogelwch a storio data a chofnodion. Mae rheoli risg hefyd yn amddiffyn y gweithwyr, cwsmeriaid, a'r cyhoedd yn gyffredinol rhag digwyddiadau negyddol a allai effeithio arnynt. Mae arferion rheoli risg hefyd yn fater o gadw'n ddiogel y cyfleusterau ffisegol, data, cofnodion ac asedau ffisegol sydd yn eiddo i gyngor a chael eu defnyddio ganddo.

3.13 Er y gall amrywiaeth o wahanol strategaethau liniaru neu ddileu risg, mae'r broses o adnabod y risg a'i rheoli yn eithaf safonol, ac y mae iddi bum cam sylfaenol. Yn gyntaf, mae bygythiadau neu risgiau yn cael eu nodi. Yn ail, asesir pa mor agored yw asedau allweddol fel gwybodaeth i'r bygythiadau a nodwyd. Yna, mae canlyniadau disgwyliedig bygythiadau penodol yn cael eu hasesu. Y ddau gam olaf yn y broses yw nodi sut i leihau risgiau ac yna blaenoriaethu'r gweithdrefnau rheoli risg ar sail eu pwysigrwydd. Mae meddu ar gynllun rheoli risg yn rhan bwysig o gynnal cyngor llwyddiannus a chyfrifol, a bydd yn helpu i amddiffyn pobl yn ogystal ag asedau ffisegol ac ariannol.

3.14 Gwelsom mewn llawer cyngor fod diogelu wedi ei nodi fel risg fawr y maent wedi cymryd camau i'w rheoli a'i lliniaru. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir a Dinas Abertawe ddiogelu fel risg gorfforaethol allweddol. Nododd eu hadolygiad blynyddol o'u Cofrestr Risgiau Corfforaethol gyfres o gamau lliniaru i reoli'r risg hon, a chaiff y rhain eu cydlynu gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Corfforaethol. Hefyd, mae gan bob gwasanaeth gofrestr risg a adolygir yn fisol. Yn yr un modd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd yn cynnwys diogelu ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a adolygir yn fisol gan swyddogion ac aelodau etholedig, gan gynnwys pwyllgorau craffu.

3.15 Mae gan Gyngor Sir Penfro drefniadau ar gyfer ystyried risgiau gweithredol a seiliedig ar achos gan uwch-reolwyr, ac iddynt hwy gyfeirio unrhyw faterion yn codi at y gwasanaethau gweithredol a'r Gwasanaeth Diogelu Integredig i weithredu. Mae unrhyw wersi a ddysgir yn sgil hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac esblygu mwy ar y prosesau a'r gweithdrefnau. Mae Cyngor Sir Penfro yn cydnabod y bydd methiannau posib mewn diogelu yn wastad yn risg lefel-uchel ac y bydd materion diogelu yn aros ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

3.16 Mewn rhai cynghorau, dywedwyd wrthym fod diogelu yn cael ei gynnwys ar y cofrestri risg corfforaethol, ond nid oedd llawer o dystiolaeth o hyn. Tra bod cynlluniau gwasanaeth yn defnyddio agweddau rheoli risg, cawsom nad oedd natur y cysylltiad rhwng adrodd am risgiau ar lefel gwasanaeth a risgiau ar y lefel corfforaethol yn wastad yn glir. Mewn cynghorau eraill, gwelsom fod ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr o'r modd mae rheoli risg yn gweithredu yn amrywio'n fawr. Nid oedd rhai aelodau staff a gyfwelwyd gennym yn glir ynghylch sut yr oedd risgiau adrannol a chorfforaethol yn cael eu monitro a'u hadolygu. Nid oedd Pwyllgorau Archwilio, fel mater o drefn, yn cyfeirio materion oedd yn codi o'u hadolygiadau o'r gofrestr risg i'w herio gan y pwyllgorau craffu a throsolwg mwy arbenigol. Hefyd, mewn nifer o gynghorau, ni welwyd diogelu plant fel risg benodol i'r cyngor.

Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg

Atodiad 2 - Rhestr wirio – nodweddion allweddol trefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu



# Atodiad 1 - Methodoleg

## Adolygiad o lenyddiaeth, data ac ystadegau

Yr ydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- dogfennau polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru; ac
- ymchwil a chanllawiau perthnasol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn.

## Gwaith maes mewn awdurdodau lleol

Fe wnaethom ymweld â'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, rhwng Rhagfyr 2013 a Mai 2014. Yn ystod yr ymweliadau, fe wnaethom gyfweld ag amrywiaeth o staff yr awdurdodau lleol, aelodau etholedig, gan gynhyrchu adroddiadau lleol ar gyfer pob cyngor yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol.

## Arolygon awdurdodau lleol

Fe wnaethom gynnal arolwg o staff awdurdodau lleol oedd yn gweithio mewn gwasanaethau hamdden a diwylliant a llyfrgelloedd, a staff addysg mewn ysgolion a rhai nad oeddynt yn gweithio mewn ysgolion; prifathrawon; cadeiryddion llywodraethwyr; a phob aelod etholedig. Defnyddiwyd arolygon oedd yr un fath yn union i bob grŵp er mwyn gofalu y gellid cymharu'r canfyddiadau. Derbyniasom gyfanswm o 1,990 ymateb: 185 gan gadeiryddion llywodraethwyr, 331 gan aelodau etholedig a 1,474 gan staff cyngor.

# Atodiad 2 - Rhestr wirio – nodweddion allweddol trefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu

| Safon sicrwydd corfforaethol | Gweithredwyd | Wrthi'n datblygu | Heb ei weithredu |
|---|---|---|---|
| **Arweiniad corfforaethol** | | | |
| Mae'r cyngor wedi nodi unigolyn a enwir ar lefel uwch-reoli i hybu pwysigrwydd diogelu ac i hybu lles plant yn y sefydliad drwyddo draw | | | |
| Penododd y cyngor aelod arweiniol ar gyfer diogelu | | | |
| Mae'r cyngor yn dosbarthu ac yn cyfoesi gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd i'r holl staff a rhanddeiliaid | | | |
| Mae'r cyngor yn rhoi profion rheolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r swyddogaethau arwain corfforaethol hyn | | | |
| **Polisi corfforaethol** | | | |
| Mae polisi ledled y cyngor ar ddiogelu sydd yn ymdrin â holl wasanaethau'r cyngor | | | |
| Mae'r polisi yn cael cyhoeddusrwydd, yn cael ei hybu a'i ddosbarthu yn eang | | | |
| Adolygir y polisi bob tair blynedd neu pryd bynnag y ceir newid sylweddol yn y sefydliad neu mewn deddfwriaeth berthnasol | | | |
| Caiff y polisi ei gymeradwyo a'i lofnodi gan y corff rheoli perthnasol (ee., y cyngor neu'r pwyllgor gwaith) | | | |
| Caiff y polisi ei gymeradwyo a'i lofnodi gan y bwrdd lleol diogelu plant | | | |
| Mae'r polisi yn ymdrin â gwaith diogelu yn holl wasanaethau perthnasol y cyngor | | | |
| Mae gofyn i'r holl staff, aelodau, gwirfoddolwyr, partneriaid a chontractwyr gydymffurfio â'r polisi – nid oes eithriadau | | | |
| Mae'r cyngor yn rhoi prawf rheolaidd ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r polisi | | | |

| Safon sicrwydd corfforaethol | Gweithredwyd | Wrthi'n datblygu | Heb ei weithredu |
|---|---|---|---|
| **Recriwtio staff yn ddiogel** | | | |
| Mae canllawiau ysgrifenedig ar arferion recriwtio diogelach ar gael ac fe'u defnyddir i recriwtio a dewis staff | | | |
| Mae pawb sy'n dod i gysylltiad sylweddol â phlant yn cwblhau hunan-ddatganiad am euogfarnau blaenorol | | | |
| Mae'r cyngor yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a'r angen i gydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn berthnasol i bob gwasanaeth sy'n golygu cyswllt â phlant | | | |
| Ni fydd staff sydd angen gwiriad GDA yn cychwyn gweithio hyd nes bod hyn wedi ei gwblhau a'i gymeradwyo | | | |
| **Hyfforddi a datblygu** | | | |
| Mae hyfforddiant ar arferion recriwtio mwy diogel ar gael ac fe'i defnyddir i recriwtio a dewis staff | | | |
| Mae diogelu wedi ei gynnwys fel rhan safonol o raglenni cynefino | | | |
| Mae hyfforddi diogelu yn orfodol ac yn ymdrin â holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor | | | |
| Mae canlyniadau peidio â chydymffurfio â pholisi diogelu'r cyngor yn cael eu gwneud yn glir i'r staff a'r aelodau ac mae'n gysylltiedig â phrosesau disgyblu'r cyngor | | | |
| **Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir** | | | |
| Mae proses o ymwneud â phartneriaid ar faterion diogelu er mwyn sicrhau cytundeb, dysgu gwersi a datblygu arferion da | | | |
| Mae gan y cyngor isafswm safonau ysgrifenedig yn ymwneud â diogelu ar gyfer gweithio gyda phartneriaid, gwirfoddolwyr a chontractwyr | | | |
| Mae'r cyngor yn mynnu arferion recriwtio diogel gan bartneriaid, gwirfoddolwyr a chontractwyr gwasanaethau a gomisiynwyd a/neu a ddefnyddir gan y cyngor | | | |
| Mae'r cyngor yn mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio i'r cyngor i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn dilyn hyfforddiant diogelu | | | |

| Safon sicrwydd corfforaethol | Gweithredwyd | Wrthi'n datblygu | Heb ei weithredu |
|---|---|---|---|
| **Systemau** | | | |
| Mae system integredig ledled y cyngor i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA | | | |
| Gall y cyngor adnabod, olrhain a monitro presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, gan aelodau etholedig a chan ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr | | | |
| **Craffu a sicrwydd** | | | |
| Mae'r cyngor yn adrodd yn rheolaidd am faterion diogelu a sicrwydd i bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad y cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys: | | | |
| • meincnodi a chymharu ag eraill; | | | |
| • casgliadau archwiliadau/adolygiadau adolygu mewnol ac allanol; | | | |
| • data perfformiad perthnasol seiliedig ar wasanaethau; | | | |
| • data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a | | | |
| • pherfformiad contractwyr, partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir ar gydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor | | | |
| Mae risgiau cysylltiedig â diogelu yn cael eu hystyried ar lefel corfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor | | | |
| Gwethredir rhaglen dreigl o brofi'r systemau archwilio mewnol ac adolygiadau cydymffurfio sy'n ymwneud ag arferion diogelu'r cyngor | | | |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru